Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Tabl o gymwysterau gofynnol ar gyfer rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru

Mae'n rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ymarfer fel y rheolwr cofrestredig mewn gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru. Er mwyn cofrestru, rhaid i chi feddu ar un o'r cymwysterau a restrir isod. Mae'r rheoliadau'n mynnu bod rhaid i bobl sydd wedi'u henwi i ddirprwyo i reolwr cofrestredig fod yn gymwys fel rheolwr gofal cartref a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd. Gellir darllen rheolau cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru ar ein gwefan - rheolau cofrestu Gofal Cymeithasol Cymru

Rheolwr Gofal Cartref

Cymwysterau cyfredol angenrheidiol	Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon: os ydych yn gweithio gydag oedolion **neu** Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon: os ydych yn gweithio gyda phlant Rhaid i Nyrs Gofrestredig Lefel Gyntaf feddu ar **naill ai** : Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion / Plant a Phobl Ifanc fel **sy'n briodol**) Cymru a Gogledd Iwerddon neu NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol) Rhaid i nyrs gofrestredig gyda NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) hefyd gwblhau'r Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon cyn adnewyddu cofrestriad.

Mwy o gymwysterau ar y tudalen nesaf

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Rheolwr Gofal Cartref

Cymwysterau eraill sydd hefyd yn dderbyniol ar gyfer cofrestru	• NVQ 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal • NVQ 4 Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig • NVQ 4 Rheolaeth (a aseswyd mewn lleoliad gofal) • NVQ 4 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc **fel sy'n briodol**) • NVQ 4 mewn Gofal • Diploma mewn Rheolaeth Gofal Cartref Neu, am y rai a gofrestrwyd cyn 2014: Cymhwyster gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan y Cyngor Gofal/ Gofal Cymdeithasol Cymru

Ystyrir bod deiliaid unrhyw gymhwyster gofal cymdeithasol arall y mae Gofal Cymdeithasol Cymru neu Gyngor Gofal o'r farn ei bod yn gyfwerth â'r rhai a restrir yn yr Atodlen hon wedi cwblhau'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r gofyniad yn ymwneud ag ef at ddibenion adran 84(b)(ii) y Ddeddf.

Islaw lefel rheolwr

I gofrestru, mae'n rhaid i chi feddu ar un o'r cymwysterau a restrir isod. Mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal cartref gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn mis Ebrill 2020.

Os byddwch chi'n gwneud cais am gofrestru cyn 2020, mae dau lwybr ychwanegol y gallwch eu dilyn. Rhestrir y rhain ar waelod y ddogfen hon.

Cymwysterau cyfredol angenrheidiol	Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu Os ydych chi'n gweithio gyda phlant: Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon
Cymwysterau eraill sydd hefyd yn dderbyniol ar gyfer cofrestru	NVQ 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc) **fel sy'n briodol** NVQ 3 mewn Gofal NVQ 3 mewn Hybu Annibyniaeth NVQ 3 mewn Gofalu am Blant a Phobl Ifanc NVQ 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol NVQ 2 mewn Gofal Diploma Lefel 2 mewn Gofal Iechyd Clinigol Diploma Lefel 3 mewn Gofal Iechyd Clinigol Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Therapi Galwedigaethol Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Ffisiotherapi Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Ailalluogi Nyrs gofrestredig lefel gyntaf. Cymhwyster gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan y Cyngor Gofal/Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cynnwys Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol, DipSW, CQSW, CSS Rhestrir cymwysterau sy'n dderbyniol o wledydd eraill y Deyrnas Unedig yn y fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cartref.

Gwneud cais i gofrestru fel gweithiwr gofal cartref cyn mis Ebrill 2020

Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2020, gallwch gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn wirfoddol. I wneud hyn, rhaid i chi naill ai feddu ar un o'r cymwysterau a restrir yn y tabl uchod neu allu cofrestru trwy naill ai:

a) feddu ar y Dyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gwaith Cymdeithasol (Cymru)

neu

b) os oes gennych dair blynedd neu fwy o brofiad parhaus o weithio yn y sector, datganiad o gymhwysedd a lofnodwyd gan eich rheolwr cofrestredig ac a ategir gan bortfolio o dystiolaeth o wybodaeth a sgiliau perthnasol.